Gyda'n Gilydd dros Newid
Together for Change

# Gweithio Gyda'n Gilydd am Gymru Well

## Uchafu effaith gweithredu mewn cymunedau




**Adroddiad o'r cyfarfod agored cenedlaethol**

Yr Egin, Caerfyrddin, 19 Medi 2024

## Cynnwys

Gyda'n Gilydd am Gymru Well: Crynodeb o'r cyfarfod .... 2

Trosolwg .... 2

Sesiynau'r cyfarfod: Cyflwyniadau, sesiynau thematig a thrafodaethau agored .... 5

Cyflwyniad .... 5

Sesiynau Thematig .... 7

Sesiynau trafodaeth agored .... 12

Cardiau addewid creu cynghrair .... 13

Casgliad .... 15

# Gyda'n Gilydd am Gymru Well: Crynodeb o'r cyfarfod

## Trosolwg

Daeth 70 cynrychiolwr ynghyd ar gyfer cyfarfod agored *Gweithio gyda'n gilydd am Gymru Well*, a hynny o'r sector statudol, y trydydd sector, a'r sector preifat, yn ogystal ag o grwpiau a sefydliadau cymunedol ym maes datblygu cymunedol ledled Cymru ac o wledydd cyn belled â Seland Newydd a'r Unol Daleithiau.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn yr Egin yng Nghaerfyrddin mewn cydweithrediad â Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, a'i ddiben oedd trafod sut y gallwn gydweithio a rhannu adnoddau er mwyn gwella gweithredu cymunedol a'r effaith y mae'n ei chael. Fe'i trefnwyd gan Gyda'n Gilydd dros Newid (TfC) mewn partneriaeth â Phartneriaeth Ymchwil y Trydydd Sector Prifysgol Caerdydd, Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol Prifysgol Abertawe, a Phartneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig (LPIP) Prifysgol Aberystwyth, gyda chyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gynnwys y cyflwyniadau, y sesiynau thematig, a'r trafodaethau fforwm agored. Mae'n tynnu sylw at yr hyn sydd ei angen er mwyn cael datblygu cymunedol effeithiol, cynaliadwy, a chynhwysol ledled Cymru.

Roedd y cyfarfod yn mynd i'r afael â thri chwestiwn craidd:

- **Nodi bylchau:** Pa bethau allai fod ar goll o fewn strwythurau cymorth Cymru a fyddai, pe baem yn eu datrys, yn gwella'r gefnogaeth a roddir i sefydliadau cymunedol?
- **Sicrhau adnoddau**: Pa adnoddau yr ydym eu hangen ar y cyd er mwyn cryfhau'r effaith yr ydym yn ei chael?
- **Effaith cydweithio:** A allai dull 'gwell gyda'n gilydd' arwain at gael mwy o effaith?

Dechreuwyd gyda chyflwyniad ar ganfyddiadau gwaith ymchwil *Gwell gyda'n Gilydd*, a oedd yn amlygu bylchau arwyddocaol yn y gefnogaeth ar roddir ar lawr gwlad, yna cafwyd trafodaeth gan banel o bobl ar draws y sectorau ar ffactorau sy'n galluogi a'r heriau sy'n bodoli, ac yna cafwyd sesiynau thematig mewn grwpiau llai. Yn y fforwm trafodaeth agored derfynol, bu'r cyfranogwyr yn crynhoi'r prif negeseuon ac yn trafod gwerth cynghrair ag adnoddau i hyrwyddo ymgysylltiad a chydweithrediad.

# Crynodeb Gweithredol

Dyma’r wybodaeth a’r blaenoriaethau a gasglwyd o’r cyfarfod yn ei gyfanrwydd:

1. **Codi llais cymunedau**
   Bu’r cyfranogwyr yn pwysleisio gwerth mewnbwn a gwybodaeth leol gan y cyhoedd, a’u defnydd fel conglfeini ar gyfer datblygiad effeithiol. Sawl gwaith, dywedwyd bod galluogi cymunedau i rannu eu gwybodaeth, i ddeall eu hasedau, ac i helpu i gydweithio â sefydliadau ac academia i ganfod datrysiadau yn ffactor allweddol. Roedd hyn yn cynnwys teilwra gwaith ymgysylltu er mwyn cwrdd â chymunedau yn eu bröydd a thrwy feithrin amgylchedd sy’n croesawu amrywiaeth o leisiau o’r gymuned.

2. **Hygyrchedd data a gwaith ymchwil dan arweiniad y gymuned**
   Nodwyd bod data yn arf pwysig wrth ddod i ddeall anghenion lleol, wrth sicrhau cyllid, ac wrth fesur effaith. Fodd bynnag, nodwyd bod bylchau o ran hygyrchedd data ac adnoddau ar gyfer gwaith perthnasol i gasglu a dadansoddi data dan arweiniad y gymuned yn rhwystr sylweddol. Nodwyd bod gwella mynediad cymunedau at adnoddau data, gwella sut y rhennir data, a chreu hyrwyddwyr data o fewn cymunedau oll yn gamau hanfodol ar gyfer gweithredu ar sail tystiolaeth.

3. **Meithrin gallu trwy gydweithrediad hirdymor ar draws y sectorau**
   Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd partneriaethau cadarn, hirdymor ar draws sectorau. Mae gan sefydliadau addysg uwch, cyrff statudol, sefydliadau'r trydydd sector, a grwpiau cymunedol oll adnoddau a safbwyntiau unigryw a allai, o'u cyfuno, arwain at newid sylweddol. Serch hynny, nodwyd bod staffio sefydlog, cyllid digonol, a phwyntiau cyswllt dibynadwy i reoli partneriaethau'n effeithiol yn hanfodol ar gyfer parhad ac effaith.

4. **Defnyddio cyllid hyblyg a pholisïau cefnogol i oresgyn rhwystrau**
   Roedd yr angen am fodelau ariannu cynaliadwy yn bryder cyson, a chlywyd galwadau am strwythurau ariannu sy'n cefnogi ymgysylltiad hirdymor, datblygiad sgiliau, a dyraniad hyblyg o adnoddau yn seiliedig ar flaenoriaethau cymunedol. Fe wnaeth y cyfranogwyr hefyd bwysleisio pwysigrwydd cael fframwaith polisi sy’n cael ei rannu ar draws y sectorau, un sydd yn blaenoriaethu cydweithrediad ac arloesi er mwyn lleihau’r perygl o ddyblygu gwaith a gwella effeithlonrwydd ymdrechion ar draws sefydliadau a lleoliadau.

5. **Annog newid diwylliannol tuag at system o gyd-gynhyrchu a datrysiadau sy’n cael eu harwain gan y gymuned**
   Roedd symud oddi wrth agwedd "o'r brig i lawr" tuag at un lle mae cymunedau yn gallu ymgysylltu fel partneriaid yn thema reolaidd. Mae hyn yn cynnwys gofyn i gymunedau

"beth allwn ni ei wneud i chi?", a chynnig llwybrau amlwg sy'n caniatáu i'w mewnbwn nhw ddylanwadu ar brosiectau. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod newid diwylliannol yn hanfodol os ydym am wella cynhwysiant, a phwysleisiwyd bod angen hyfforddi, mentora, a chyd-gynhyrchu yn barhaus, yn hytrach na'u trin fel gweithgareddau unigol.

6. **Angen brys i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol a hinsoddol**
   Roedd yr angen dybryd i fynd i'r afael â dirywiad yr hinsawdd, anghydraddoldeb cymdeithasol, a gwytnwch economaidd yn sail i lawer o drafodaethau. Dywedodd y cyfranogwyr bod angen am fodelau y gellir eu haddasu ac sy'n ystyried bod effaith ar yr hinsawdd a budd cymunedol yn agweddau cysylltiedig ar ddatblygiad cymunedol. Mae'r brys hwn yn golygu bod angen ffurfio cynghreiriau cryfach a chydweithredu er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau hyn sy'n gyffredin i bawb.

7. **Cyfathrebu effeithiol a gwybodaeth sy'n hygyrch**
   Nodwyd bod gwella strwythurau cyfathrebu ar draws y sectorau yn hanfodol er mwyn sicrhau cydweithrediad effeithiol. Byddai platfformau hygyrch a chanolog, lle gall partneriaid rannu gwybodaeth, adnoddau, a chanlyniadau prosiectau, yn helpu i atal gwybodaeth rhag cronni mewn un lle ac yn caniatáu mwy o gyfranogiad a rhannu gwybodaeth. Credid bod sicrhau y gall sefydliadau gysylltu'n rhwydd ac yn ddidrafferth gyda'i gilydd yn hanfodol os ydym am gael effaith sylweddol a hirdymor.

Trwy fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol hyn ar y cyd, gall cymunedau a phartneriaid greu sylfaen gynaliadwy ar gyfer llesiant. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yng nghyfarfod *Gweithio Gyda'n Gilydd am Gymru Well* yn amlygu'r angen i wneud ymrwymiad parhaus i gydweithio, i sicrhau cyllid hyblyg, ac i weithredu dan arweiniad cymunedau. Yn y dyfodol, bydd cryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau a chydweithredu i raddau mwy helaeth yn hollbwysig wrth alluogi cymunedau i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd i greu cymdeithas decach a mwy cyfiawn yng Nghymru.

# Sesiynau’r cyfarfod: Cyflwyniadau, sesiynau thematig a thrafodaethau agored

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg o gyflwyniadau a thrafodaethau'r cyfarfod. Cafodd y themâu trawsbynciol a nodwyd yn y crynodeb gweithredol eu casglu o gynnwys y sesiynau hyn. Gyda’i gilydd, maen nhw’n cynnig darlun gwerthfawr o’r bylchau systemig sydd yn bodoli yng Nghymru, a sut y gellid mynd i’r afael â hwy trwy gryfhau’r cysylltiadau rhwng polisïau, gwaith ymchwil, a datblygiad cymunedol, er mwyn sicrhau newid effeithiol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn amlygu llwybr strategol a allai fframio agenda polisi a chyflawni sy’n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Cyflwyniad

### Gwell Gyda'n Gilydd – Ymchwil ar safbwyntiau ar fylchau yn y system

**Cyflwynydd:** Babs Lewis (Babs Lewis Consulting)

I ddechrau, cyflwynwyd *Gwell Gyda’n Gilydd* gan Babs Lewis, sef prosiect ymchwil a ddyluniwyd i archwilio bylchau yn y strwythurau cymorth i sefydliadau llawr gwlad yng Nghymru. Roedd yr ymchwil, a gomisiynwyd gan Gyda’n Gilydd dros Newid, yn cynnwys cyfweliadau manwl gyda 17 o unigolion a gyflogir gan sefydliadau statudol a thrydydd sector cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru. Roedd y prosiect yn ymdrin â’r cwestiynau canlynol:

- **Y gefnogaeth ar hyn o bryd:** Sut mae sefydliadau ar hyn o bryd yn cefnogi sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ar lesiant?
- **Meysydd i’w gwella:** Pa gymorth ychwanegol fyddai'n helpu i wella effaith y gwaith hwn?
- **Bylchau strwythurol:** Ble, ym marn cyfranogwyr, mae’r bylchau o fewn strwythurau cymorth presennol Cymru?
- **Cryfhau cefnogaeth:** Sut y gellid pontio'r bylchau hyn er mwyn gwella canlyniadau?

Fe rannodd cyfranogwyr wybodaeth agored a gonest a oedd yn seiliedig ar safbwyntiau personol a sefydliadol, gan amlygu rhwystrau yn ogystal â meysydd lle gellid gwella. Mae eu hymatebion yn dangos:

- Nad oes gweledigaeth a pholisi datblygu cymunedol ar lefel genedlaethol a allai uno sefydliadau
- Mae pob sefydliad dan bwysau ariannol sylweddol
- Prin yw’r amser, os oes peth o gwbl, i fyfyrio ac i rannu’r hyn a ddysgir

- Prin yw'r gefnogaeth i feithrin perthnasoedd mwy effeithiol o gwmpas platfform ar gyfer newid
- Mae diffyg tystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim yn gweithio, a hynny oherwydd nad oes data yn cael ei gasglu, ei ymchwilio, na'i werthuso ar sail gymunedol.

Dylai unrhyw ddatrysiadau fod yn ystyriol o'r pethau canlynol:

- Mae hwn yn faes prysur ac mae perygl i waith gael ei ddyblygu
- Rhaid gweithio o dan bwysau systemig
- Mae angen amser ac ymdrech i feithrin perthnasoedd cryf, hirhoedlog a all feithrin partneriaethau ar bob lefel
- Mae arnom angen weledigaeth eglur ar gyfer y dyfodol, un y gall pawb ei deall a'i chefnogi.

Cyflwynodd Babs Lewis ganfyddiadau *Astudiaeth o'r Dystiolaeth* hefyd, a oedd yn cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig gydag unigolion sy'n cynrychioli defnyddwyr mewn 30 o grwpiau cymunedol ledled Cymru sy'n mynd i'r afael â llesiant a'r ffactorau ehangach sy'n effeithio arno trwy gyfrwng eu gwaith.

Roedd y prosiect yn ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth yw teimladau grwpiau cymunedol am yr amgylchedd y maen nhw'n gweithredu ynddo?
- A ydyn nhw'n myfyrio ar eu cynnydd, ac os nad ydyn nhw, pam?
- Beth fyddai'n helpu, os unrhyw beth?

Dywedodd yr ymatebwyr:

- Mae mwy a mwy o galedi ar lefel leol, ac mae mwy o bwysau ar y rhai sy'n cefnogi pobl i gael gwell bywydau
- Mae perygl o orweithio, ond mae digon o ymroddiad, cryfder, ac egni i weithredu dros y gymuned.
- Mae pawb yn myfyrio ar gynnydd mewn ffordd anffurfiol, gan gydnabod pwysigrwydd gwaith ymchwil a gwerthuso, ond mae rhwystrau sy'n eu hatal
- Mae gofynion am ddata rheoli gan y rhai sy'n rhoi cyllid, a'r diffyg o ran cyd-gynhyrchu, capasiti, a galluoedd, oll yn rhwystrau sylweddol sy'n atal y defnydd o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Mae pawb eisiau gwneud mwy, ond maen nhw angen cefnogaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hwynebu.

## Sesiynau Thematig

**Gwybodaeth a gafwyd o'r sesiynau thematig**

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd tair thema y penderfynwyd arnynt yn sgil gwaith ymchwil Gyda'n Gilydd dros Newid. Roedd y sesiynau thematig y manylir yn eu cylch isod yn cyfuno astudiaethau achos a chyflwyniadau gyda thrafodaethau agored, gan ganolbwyntio ar y rhwystrau, y galluogwyr, a'r camau gweithredu penodol a fyddai'n arwain at ganlyniadau mwy effeithiol a chynaliadwy sydd wedi'u harwain gan y gymuned.

1. **Pŵer Pobl drwy Ymchwil**

**Cadeirydd**: Michael Woods (Prifysgol Aberystwyth)

Roedd y sesiwn hon yn dangos sut y gall cymunedau ac academyddion gydweithio'n effeithiol i feithrin gallu lleol ac i ganfod datrysiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Yn y partneriaethau hyn, gall aelodau'r gymuned ac ymchwilwyr fynd i'r afael â heriau lleol yn ogystal ag adeiladu sylfaen o wybodaeth i'w rhannu a all lywio mentrau yn y dyfodol.

**Cyflwyniadau:**

- Ymchwil Weithredu dan Arweiniad y Gymuned**: Jessie Buchanan (TfC)**
  *Trosolwg*: Mae'r fenter *Cymru Wledig LPIP Rural Wales* yn dangos sut y gall gwybodaeth a blaenoriaethau cymunedol ddylanwadu ar ddatrysiadau i galedi economaidd, anghyfiawnder cymdeithasol, a heriau amgylcheddol. Mae'r rhaglen yn grymuso cymunedau ledled cefn gwlad Cymru i ymchwilio i faterion o bwys trwy wneud gwaith ymchwil gweithredol, rhannu gwybodaeth, profi syniadau, a chydweithio â phartneriaid academaidd.
- Rhwydwaith Ymchwil Cymunedol ar gyfer Twristiaeth**: Jess Silvester (People's Economy)**
  *Trosolwg*: Dyma brosiect ymchwil cymunedol 15 mis o hyd a oedd yn ymchwilio i fodelau twristiaeth sydd o fudd i gymunedau dyffrynnoedd llechi Gwynedd. Cysylltodd y fenter â thair cymuned chwarelyddol er mwyn trafod sut beth fyddai economi dwristiaeth deg, gan arwain at greu model sy'n mynd i'r afael ag anghenion seilwaith, yn gwella rheolaeth gymunedol, ac yn ystyried effeithiau amgylcheddol.

**Galluogwyr**:

- Mae cynnwys pobl sydd â gwybodaeth leol cyn gynted ag sy'n bosibl yn cyflymu dechrau'r prosiect ac yn gwella'r gallu i gynnal yr ymgysylltiad am yn hirach.

- Mae lleoliadau anffurfiol, hygyrch (e.e. gatiau ysgol neu glybiau ieuenctid) yn annog pobl i gymryd rhan, gan ei gwneud yn haws i aelodau amrywiol o'r gymuned ymuno a rhannu eu barn.
- Mae cwrdd â phobl lle maen nhw eisoes yn ymgynnull yn helpu i gefnogi ymgysylltiad y tu hwnt i'r strwythurau cyfarfod traddodiadol, a allai eithrio rhai pobl.

**Rhwystrau**:

- Gall defnyddio dull academaidd ffurfiol o'r dechrau achosi i rai aelodau o'r gymuned golli diddordeb, gan gyfyngu ar y niferoedd sy'n cymryd rhan.
- Gall cyfyngiadau ar adnoddau neu ar amser ei gwneud yn anodd cynnwys cymunedau yn yr hirdymor, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig lle ceir mwy o broblemau logisteg.

**Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol**:

- Mae adeiladu mecanweithiau sy'n cynnal ymgysylltiad cymunedol dros amser yn cefnogi'r symudiad oddi wrth ymgynghori tuag at gael gwir gyfranogiad a chyd-gynhyrchu.
- Trwy gynnwys cymunedau i raddau mwy helaeth yn y broses o ymchwilio, ceir gwell dealltwriaeth o'r anghenion ac o'r heriau lleol.
- Bydd teilwra hyfforddiant a chymorth i fodloni anghenion penodol grwpiau a sefydliadau cymunedol yn arwain at benderfyniadau mwy gwybodus a chanlyniadau tecach.

2. **Data i Gefnogi Gweithredu yn y Fan a'r Lle**

**Cadeirydd**: Andrew Flynn (Prifysgol Caerdydd)

Fe wnaeth y sesiwn hon amlygu pwysigrwydd data a mapio asedau cymunedol wrth gryfhau gwytnwch a'r gallu i wneud penderfyniadau yn lleol. Trwy roi sgiliau dadansoddi a mynediad at ddata i gymunedau, bydd ganddynt well dealltwriaeth o'u hanghenion ac o'u hadnoddau, gan alluogi gweithredoedd sydd wedi'u targedu i gefnogi lles cymunedau.

**Cyflwyniadau:**

- **Mapio Data ac Asedau yng Nghymru: Yr Athro Scott Orford (Prifysgol Caerdydd)**
  *Trosolwg*: Mae ymchwil Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) wrth fapio asedau cymunedol ledled Cymru yn dangos sut mae prosiectau gan Gyda'n Gilydd dros Newid, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn gwella mynediad cymunedau lleol at ddata. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys rhaglenni mapio sy'n nodi'r asedau lleol hynny, megis llyfrgelloedd, parciau a chanolfannau cymunedol, sy'n rhannau hanfodol o'r economi sylfaenol.

- Mesur ac Adeiladu Gwytnwch Cymunedol**: Eleri Williams (Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (BCT))**
  *Trosolwg*: Mae BCT wedi datblygu Mynegai Asedau Cymunedol a Gwytnwch ar gyfer holl ardaloedd daearyddol bychan Cymru sydd yn cyfuno data economaidd-gymdeithasol traddodiadol gyda dangosyddion sy'n benodol i bob cymuned. Mae'r offeryn cynhwysfawr hwn yn helpu i nodi bylchau mewn gwytnwch cymunedol ac yn llywio'r gwaith o ddylunio ymyriadau sydd wedi'u targedu.

**Galluogwyr**:

- Mae rhoi cymorth i gymunedau gael mynediad at ddata a'i ddehongli yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyfannol o anghenion a chyfleoedd lleol.
- Gall ymchwil sy'n cael ei arwain gan y gymuned lenwi bylchau mewn data a thynnu sylw at y cysylltiadau sydd rhwng asedau lleol a gwell llesiant cymunedol.
- Gall data fod yn arf pwerus wrth sicrhau cyllid gan ei fod yn cynnig tystiolaeth o anghenion ac o flaenoriaethau lleol i'w cynnwys mewn ceisiadau grant.

**Rhwystrau**:

- Mae bylchau mewn data a seilos gwybodaeth yn rhwystr sylweddol, gan fod data coll neu ddata sydd ddim ar gael yn lleihau dibynadwyedd a defnyddioldeb canfyddiadau.
- Nid oes gan lawer o gymunedau y gallu na'r sgiliau i wneud y mwyaf o ddata, ac mae hynny'n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar ddata.

**Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol**:

- Gall annog hyrwyddwyr lleol i hyrwyddo'r defnydd o ddata o fewn cymunedau wella'r ddealltwriaeth o fanteision gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata.
- Byddai gwneud data yn haws i'w gyrraedd ar draws sefydliadau, gan gynnwys cyrff y llywodraeth, yn caniatáu i gymunedau ddefnyddio'r wybodaeth hon yn well at ddibenion cynllunio ac ariannu.
- Bydd rhoi hyfforddiant ar sgiliau casglu a dadansoddi data i sefydliadau'r trydydd sector yn cefnogi defnydd ehangach a mwy effeithiol o ddata er budd cymunedau.

3. **Adeiladu Gallu trwy Gydweithio a Chefnogi**

**Cadeirydd**: Christala Sophocleous (Prifysgol Abertawe)

Bu'r sesiwn hon yn trafod achosion o gydweithio llwyddiannus rhwng Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a sefydliadau cymunedol. Mae mentrau sy'n cael eu harwain gan SAU yn darparu adnoddau, gwybodaeth, a chysylltiadau i gymunedau sy'n gwella gallu lleol ac yn sbarduno newid sy'n cael effaith.

**Cyflwyniadau:**

- Partneriaeth Ymchwil y Trydydd Sector (TSRP)**: Anna Skeels a Dave Horton (SPARK, Prifysgol Caerdydd)**
  *Trosolwg*: Mae TSRP yn cynnig cefnogaeth ymchwil pro bono i sefydliadau bach llawr gwlad yng Nghaerdydd er mwyn mynd i'r afael ag anghenion rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas. Mae'r model hwn yn dangos gwerth partneriaethau rhwng y byd academaidd a sefydliadau'r trydydd sector, gan eu bod yn meithrin gallu lleol trwy rannu adnoddau ac arbenigedd.
- Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd (THINK)**: Amy Nicholass (THINK Cymru)**
  *Trosolwg*: Mae THINK Cymru yn dod â phobl o sectorau amrywiol ynghyd er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau iechyd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gan ganolbwyntio ar anghenion gwledig a threfol. Roedd y cyflwyniad yn rhoi sylw i'w heriau a'u llwyddiannau wrth gynnal rhwydwaith cydweithredol ar draws sawl sector, gan rannu arferion da sy'n berthnasol i bartneriaethau eraill sy'n canolbwyntio ar gymunedau.

**Galluogwyr**:

- Mae rhoi amser i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn cefnogi cydweithio effeithiol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig lle gallai cymunedau deimlo nad oes cysylltiad rhyngddyn nhw a sefydliadau ffurfiol.
- Trwy gael aelodau staff y maen nhw'n eu hadnabod ac yn ymddiried ynddyn nhw i reoli logisteg rhwydweithiau, yn enwedig gyda chyllid, gall grwpiau gydweithio'n well.
- Mae mannau diogel a chroesawgar ar gyfer ymgysylltu yn galluogi cyfranogwyr i siarad yn agored ac i gyfrannu'n ystyrlon at y drafodaeth.

**Rhwystrau**:

- Mae'r cyllid tymor byr sy'n ariannu swyddi yn aml yn cyfyngu ar ddatblygiad perthnasoedd parhaus a pharhad mewn partneriaethau.
- Gall diffyg ymwneud cyson gan staff uwch atal ymrwymiad hirdymor a gall rwystro momentwm cydweithredol.

**Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol**:

- Mae trefnu cysylltiadau rheolaidd gyda phartneriaid cymunedol a chydweithredol y tu hwnt i weithrediadau dydd-i-ddydd yn cefnogi perthnasau gwytnach a chryfach.
- Mae rhagor o ymrwymiad gan arweinyddiaeth uwch yn hanfodol i sicrhau bod gan brosiectau ddigon o adnoddau ac y gallant gyflawni eu potensial llawn.

- Mae systemau mewnol hyblyg o fewn Sefydliadau Addysg Uwch yn hanfodol i addasu i anghenion cymunedol ac i hwyluso cydweithredu effeithiol dros yr hirdymor.

# Sesiynau trafodaeth agored

**Negeseuon allweddol**

- **Positifrwydd ac optimistiaeth:** Mynegodd y rhai a oedd yn bresennol eu bod nhw'n teimlo'n gadarnhaol a'u bod yn gweld cynnydd o ran mentrau amgylcheddol a mentrau dan arweiniad cymunedau, a bod awydd i adeiladu ar lwyddiannau pobl eraill.
- **Modelau cyllido:** Mae angen modelau ariannu cynaliadwy sy'n galluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar weithredu heb orfod ymdopi â'r pwysau cyson i sicrhau cyllid tymor byr.
- **Pwysigrwydd cysylltiad**: Mae cynnal cysylltiadau rheolaidd ar draws sectorau yn hanfodol i feithrin perthnasoedd, i hwyluso rhannu gwybodaeth, ac i gynnal ymgysylltiad cymunedol.
- **Cydlynu a chydweithio**: Er bod gan nifer o sefydliadau ddulliau llwyddiannus, gall diffyg cydgysylltu arwain at ddyblygu gwaith a cholli cyfleoedd i gefnogi ein gilydd.

**Sicrhau a chyflymu effaith**

- **Gweledigaeth ar y cyd:** Bydd datblygu gweledigaeth ac egwyddorion ar y cyd ar bob lefel yn sicrhau cydlyniant yn ogystal â chaniatáu creadigrwydd lleol.
- **Cyd-gynhyrchu:** Bydd sicrhau bod cymunedau'n gallu cymryd rhan a siapio mentrau yn gwella effaith a chynaliadwyedd.
- **Dylanwad polisi**: Bydd rhannu llwyddiannau cymunedau a'r heriau sy'n eu hwynebu gyda llunwyr polisi yn helpu i alinio anghenion lleol â nodau strategol ehangach.

**Cydweithio er mwyn cael mwy o effaith**

- **Hyfforddiant a meithrin gallu**: Bydd hyfforddiant eang ar bynciau allweddol fel defnyddio data, cyd-gynhyrchu, ac ymgysylltu â'r gymuned yn cefnogi cydweithredu mwy effeithiol a chynaliadwy.
- **Newid diwylliannol**: Mae sbarduno newid diwylliannol ar y lefelau lle gwneir penderfyniadau yn hanfodol er mwyn meithrin cyfranogiad cymunedol ac i sicrhau effaith ehangach.
- **Buddsoddiad lleol**: Mae angen mwy o fuddsoddiad lleol i gefnogi cymunedau ac i gryfhau economïau lleol.


# Cardiau addewid creu cynghrair

Yn ystod y cyfarfod, cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i fynegi eu diddordeb mewn ymuno â chynghrair ag adnoddau a fyddai'n dod â lleisiau ynghyd, yn osgoi dyblygu gwaith, yn cynyddu effaith, ac yn adeiladu gwytnwch. Fe wnaeth dros hanner y 70 a oedd yno lenwi cerdyn addewid; o'r rhai hynny, roedd gan 100% ddiddordeb personol, a nododd 41% y byddai gan eu sefydliad ddiddordeb hefyd. Ers y cyfarfod, mae naw arall a oedd yn bresennol wedi cysylltu i fynegi diddordeb.

**Blaenoriaethau ar gyfer cael yr effaith fwyaf bosibl**

Yn rhan olaf y cyfarfod, gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i gwblhau arolwg Mentimeter i osod eu blaenoriaethau mewn trefn, a chafwyd ymateb gan 33 ohonynt.

Mae'r canlyniadau i'w gweld isod. Gwelir pwyslais cyffredin ar gyd-gynhyrchu, ar greu cynghrair i roi cefnogaeth gynaliadwy, ac ar bennu'r pethau yr ydym oll eisiau eu cyflawni.




Roedd yr arolwg hefyd yn gyfle i gyfranogwyr awgrymu meysydd pellach y dylid canolbwyntio arnynt.

Roedd yr awgrymiadau allweddol yn cynnwys:

- Gwella mynediad at wybodaeth am brosiectau, at ganlyniadau, ac at yr hyn y mae eraill wedi'i ddysgu,
- Rhoi mwy o gydnabyddiaeth i dystiolaeth anecdotaidd,

- Adfywio cyrsiau a gwaith datblygu cymunedol mewn colegau, prifysgolion, a mannau dysgu gydol oes,
- Rhoi pwyslais ar frwdfrydedd a chreu gofodau sy'n hwyluso cysylltiadau,
- Sefydlu cenhadaeth genedlaethol i osod menter gymdeithasol ac adeiladu cyfoeth cymunedol yn ganolbwynt i economi Cymru, a hynny gyda chefnogaeth sefydliadau angori ac ymgysylltiad â'r cyhoedd,
- Dynodi pwyntiau cyswllt amlwg er mwyn hwyluso cydweithio,
- Darparu cyllid pwrpasol ar gyfer cynghreiriau ac adnoddau i alluogi cymunedau i gomisiynu ymchwil academaidd yn uniongyrchol er budd cymdeithasol ac amgylcheddol,
- Creu modelau y gellir eu haddasu o ran maint sy'n mynd i'r afael â materion brys yr hinsawdd ac sydd yn meithrin cyfathrebu a chydweithio ar draws y sectorau,
- Chwalu rhwystrau gwleidyddol a meithrin sgiliau hwyluso a fydd yn pontio'r bylchau rhwng gwahanol ffyrdd o feddwl, a
- Rhoi ein sylw i anghenion cymunedol trwy ofyn, "Beth allwn ni ei wneud i chi?" gydag opsiynau eglur a chefnogol.

Mae'r awgrymiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i greu cymunedau cysylltiedig, ymatebol, a chryfach ledled Cymru, â chydweithio a chysondeb ar draws sectorau yn rhan greiddiol o'r gwaith.

# Casgliad

Fe wnaeth cyfarfod *Gweithio Gyda'n Gilydd am Gymru Well* danlinellu pwysigrwydd cydweithio ar draws y sectorau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau Cymru. Trwy ganolbwyntio ar y bylchau sy'n bodoli yn y strwythurau cefnogi presennol, ar yr angen am adnoddau cynaliadwy, ac ar y posibilrwydd o fabwysiadu dull unfryd, fe lwyddodd y rhai a oedd yno i nodi sawl maes allweddol lle dylid gweithredu.

Amlygwyd pa mor bwysig ydyw hi bod lleisiau'r gymuned yn cael eu clywed, bod data ar gael i bobl, a bod partneriaethau cadarn, hirhoedlog yn cael eu sefydlu ar draws sectorau. Pan sefydlir model cyllido hyblyg a pholisïau cefnogol, gall cymunedau Cymru symud oddi wrth agwedd "o'r brig i lawr" tuag at un sydd yn trin cymunedau fel partneriaid gwirioneddol, gan eu galluogi i ddylanwadu ar ac arwain mentrau sy'n effeithio ar eu llesiant. Roedd y trafodaethau hefyd yn pwysleisio'r brys o ran mynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol cysylltiedig, a hynny trwy ddefnyddio modelau y gellir eu haddasu, gan gynnwys eu haddasu o ran eu maint.

Wrth symud ymlaen, bydd yr ymrwymiad i rannu strwythurau cyfathrebu, i hwyluso cydweithrediad, ac i wneud adnoddau yn hygyrch yn hanfodol wrth i ni greu sylfeini cynaliadwy ar gyfer cydnerthedd a chydlyniant cymdeithasol. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn gytûn y byddai gweledigaeth ar y cyd a mecanweithiau amlwg ar gyfer cydweithio, gyda chefnogaeth sefydliadau angori ac arweinwyr lleol, yn gosod cymunedau Cymru mewn lle gwell i ymdopi â heriau'r dyfodol ac i fanteisio ar gyfleoedd, i wella llesiant, ac i wella cynhwysedd.

Bydd yr wybodaeth a'r blaenoriaethau a nodwyd yn ystod y digwyddiad *Gweithio gyda'n Gilydd am Gymru Well* yn cael eu defnyddio fel egwyddorion arweiniol wrth wneud gwaith i ddatblygu cymunedau yng Nghymru, gan ddylanwadu ar fentrau ac ar bartneriaethau yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae gan gymunedau Cymru a'u partneriaid gyfle i adeiladu dyfodol cryfach, mwy cysylltiedig.

**Nodyn o ddiolch**

Gyda diolch i'n sefydliadau partner, TSRP, y Swyddfa Heriau Lleol, a Cymru Wledig LPIP am gynllunio a chynnal y cyfarfod gyda ni, ac i SGEMA am eu cefnogaeth ychwanegol.

**Jessie Buchanan - Gyda'n Gilydd dros Newid**

CYMRU WLEDIG LPIP RURAL WALES · Swansea University Prifysgol Abertawe · Cardiff University Prifysgol Caerdydd · Social Science Research Park Y Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol · Cronfa Gymunedol Community Fund

*Wedi'i ddrafftio gan Gyda'n Gilydd dros Newid a SGEMA*

Gyda'n Gilydd dros Newid

Together for Change